RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 24/2021

DYDDIAD CYHOEDDI: 19/03/2021

# Proffil Twristiaeth - De-ddwyrain Cymru 2017 - 2019

© ISBN Digidol Hawlfraint y Goron 978-1-80195-040-4

Teitl: Proffil Twristiaeth - De-ddwyrain Cymru 2017-2019
Is-deitl: Crynodeb o dueddiadau twristiaeth rhanbarth De-ddwyrain Cymru

ISBN 978-1-80195-040-4

Ymchwilydd: Jennifer Velu

Barn yr ymchwilydd ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag:
Ymchwil Twristiaeth
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 025 5771
e-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data yn gysylltiedig â thwristiaeth yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru ar gyfer y cyfnod 2017-2019, gan gymharu hynny â lefel gyffredinol Prydain, lefel Cymru gyfan a rhanbarthau eraill Cymru. Am wybodaeth gymharol, dylid darllen tri phroffil twristiaeth rhanbarthol arall Cymru, a'r proffil awdurdod lleol.

Yn dilyn cyngor y Swyddfa Ystadegau gwladol, er mwyn sicrhau bod yr ystadegau mor gadarn ag sy'n bosibl, cyflwynir y ffigurau ar ffurf cyfartaleddau blynyddol dros 3 blynedd.  2019 yw'r flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ddata manwl ar ei chyfer ar y raddfa ddaearyddol hon, felly mae'r proffiliau yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r proffiliau yn cynnwys tablau ar ymwelwyr dros nos domestig, dros nos rhyngwladol ac ymwelwyr undydd domestig â Chymru, a chyfraddau defnydd llety.

## Mynegai

1. Trosolwg a Phwyntiau Allweddol ....5

2. Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain ....10

Nifer y Teithiau a Gwariant Cysylltiedig ....11

Nifer Cyfartalog y Nosweithiau fesul Taith ....13

Diben y Daith ....13

Hyd y Teithiau Gwyliau ....15

Cyfnod Bywyd y Teithiau Gwyliau ....15

Tymhorau'r Teithiau ....16

Math o le yr ymwelwyd ag ef ....17

Math o lety a ddefnyddiwyd ar daith ....18

Rhanbarth Tarddiad ....21

3. Ymwelwyr Rhyngwladol â Chymru ....21

Nifer yr Ymweliadau a Gwariant Cysylltiedig ....22

Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad ....23

Nifer cyfartalog y Nosweithiau fesul Ymweliad ....24

Diben y Daith ....24

Gwlad Tarddiad ....27

4. Ymweliadau Undydd Twristiaeth ....27

Ymweliadau Undydd Twristiaeth a Gwariant Cysylltiedig ....28

Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad ....29

Gweithgareddau a gyflawnwyd ....30

Math o le yr ymwelwyd ag ef ....31

Dull Teithio a Ddefnyddiwyd ....32

Pellter a deithiwyd ....33

5. Cyfraddau Deiliadaeth Llety ....34

Gwestai ....34

Gwestai Bach a Gwely a Brecwast ....35

Hunanddarpar ....35

Carafanau Sefydlog a Chartrefi Gwyliau ....36

Hosteli ....36

6. Adnoddau Pellach ....37

7. Atodiad ....38

# 1. Trosolwg a Phwyntiau Allweddol




**Twristiaeth yn gyffredinol**

Yn 2017-2019 cafwyd cyfartaledd blynyddol o 2.3 miliwn o deithiau dros nos gan ymwelwyr domestig o Brydain, 525,000 o ymweliadau rhyngwladol a 37.7 miliwn o ymweliadau undydd twristiaeth yn Ne-orllewin Cymru, a gwariant cyfartalog blynyddol o £2.2 biliwn yn gysylltiedig â hynny.

Derbyniodd De-ddwyrain Cymru 23 y cant o deithiau dros nos domestig, 50 y cant o ymweliadau rhyngwladol a 40 y cant o ymweliadau undydd twristiaeth yng Nghymru. Roedd gwariant ar ymweliadau twristiaeth â De-ddwyrain Cymru i gyfrif am 35 y cant o wariant twristiaeth yng Nghymru.

Gostyngodd y gwariant cyfartalog blynyddol ar ymweliadau yn Ne-ddwyrain Cymru 6 y cant o £2.30 biliwn yn 2016-2018 i £2.17 biliwn yn 2017-2019. Mewn cymhariaeth â hyn, cafwyd gostyngiad o 2 y cant yn y gwariant ar ymweliadau yng Nghymru i £6.21 biliwn *Gweler* ***Tabl 1.0***

*Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain*

Yn Ne-ddwyrain Cymru gwelwyd cynnydd o 2 y cant yn nifer cyfartalog blynyddol y teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain, gan gyrraedd 2.3 miliwn rhwng 2016-2018 a 2017-2019, ond cafwyd cynnydd o 5 y cant yn nifer y teithiau yng Nghymru'n gyffredinol gan gyrraedd 9.9 miliwn. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd o 5 y cant dros yr un cyfnod mewn gwariant cysylltiedig ar deithiau dros nos domestig yn Ne-ddwyrain Cymru, sydd yn nes at y cynnydd cyfartalog a welwyd yng Nghymru, sef 6 y cant. *Gweler* ***Tabl 1.1***

*Ymweliadau Undydd gan Ymwelwyr Domestig o Brydain*

Gostyngodd nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth yng Ne-ddwyrain Cymru 3 y cant rhwng 2016-2018 a 2017-2019 i 37.7 miliwn o deithiau, tra gostyngodd nifer y teithiau yng Nghymru gyfan 5 y cant. Cafwyd gostyngiad o 11 y cant mewn gwariant cysylltiedig yn Ne-ddwyrain Cymru dros yr un cyfnod o £1.74 biliwn i £1.55 biliwn, sef gostyngiad mwy na'r 5 y cant a welwyd ar draws Cymru ar gyfartaledd. *Gweler* ***Tabl 1.3***

*Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru*

Arhosodd nifer yr ymweliadau rhyngwladol â De-ddwyrain Cymru yn sefydlog yn 2017-2019 o gymharu â 2016-2018, ar 525,000, ond cafwyd mymryn o ostyngiad, sef 2 y cant, yn nifer y teithiau rhyngwladol i Gymru'n gyffredinol. Dros yr un cyfnod, cododd gwariant cysylltiedig gan ymwelwyr rhyngwladol yn Ne-ddwyrain Cymru 14 y cant i £224 miliwn, sydd yn llawer uwch na'r cynnydd o 1 y cant a welwyd yn gyffredinol yng Nghymru. *Gweler* ***Tabl 1.2***


**Cafwyd mwy o ostyngiad mewn gwariant ar ymweliadau twristiaeth â De-ddwyrain Cymru nag a gafwyd yng Nghymru'n gyffredinol.**

**Tabl 1.0 Gwariant (£ miliwn) yn ôl Cyfartaleddau Tair Blynedd ar gyfer Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain, Ymweliadau Rhyngwladol ac Ymweliadau Undydd Twristiaeth**
*Ffynonellau: Arolwg Twristiaeth Prydain, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*

| | Gwariant (£ miliwn) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-2018 | % y gwariant | 2017-2019 | % y gwariant | % o newid |
| Prydain | £113,583 | | £116,138 | | 2% |
| Cymru | £6,315 | 100% | £6,206 | 100% | -2% |
| Gogledd Cymru | £1,636 | 26% | £1,474 | 24% | -10% |
| Canolbarth Cymru | £755 | 12% | £994 | 16% | 32% |
| **De-ddwyrain Cymru** | **£2,304** | **36%** | **£2,167** | **35%** | **-6%** |
| De-orllewin Cymru | £1,282 | 20% | £1,237 | 20% | -4% |

Cafwyd gostyngiad o 6 y cant mewn gwariant cysylltiedig ar ymweliadau twristiaeth â De-ddwyrain Cymru yn 2017-2019, o £2.3 biliwn i £2.2 biliwn, tra gostyngodd gwariant twristiaeth yng Nghymru gyfan ond 2 y cant i £6.2 biliwn.

**Dangosyn 1.0 Gwariant yng Nghymru a De-ddwyrain Cymru 2017-2019**
*Ffynonellau: Arolwg Twristiaeth Prydain, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




Yn 2017-2019, roedd cyfran y gwariant twristiaeth yn sgil ymweliadau undydd twristiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru yn uwch nag yng Nghymru'n gyffredinol, sef 72 y cant o gymharu â 63 y cant. I'r gwrthwyneb roedd cyfran y gwariant ar deithiau dros nos domestig yn Ne-ddwyrain Cymru yn is, sef 18 y cant, na'r 29 y cant a welwyd yng Nghymru gyfan.

**Cafwyd cynnydd mewn teithiau dros nos domestig a gwariant yn Ne-ddwyrain Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019.**

**Tabl 1.1 Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol Tair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | **Teithiau (miliynau)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2018** | **% y teithiau** | **2017-2019** | **% y teithiau** | **% o newid** |
| Prydain | 119.562 | | 120.671 | | 1% |
| Cymru | 9.451 | 100% | 9.914 | 100% | 5% |
| Gogledd Cymru | 3.378 | 36% | 3.653 | 37% | 8% |
| Canolbarth Cymru | 1.887 | 20% | 1.916 | 19% | 2% |
| **De-ddwyrain Cymru** | **2.252** | **24%** | **2.307** | **23%** | **2%** |
| De-orllewin Cymru | 1.862 | 20% | 1.939 | 20% | 4% |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | |
| | **2016-2018** | **% y gwariant** | **2017-2019** | **% y gwariant** | **% o newid** |
| Prydain | £23,574 | | £24,098 | | 2% |
| Cymru | £1,723 | 100% | £1,828 | 100% | 6% |
| Gogledd Cymru | £626 | 36% | £682 | 37% | 9% |
| Canolbarth Cymru | £314 | 18% | £335 | 18% | 7% |
| **De-ddwyrain Cymru** | **£373** | **22%** | **£393** | **22%** | **5%** |
| De-orllewin Cymru | £374 | 22% | £383 | 21% | 2% |

Yn Ne-ddwyrain Cymru gwelwyd cynnydd yn nifer y teithiau dros nos domestig yn 2017-2019, er bod cyfradd y cynnydd hwnnw'n llai na'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru (2 y cant o gymharu â 5 y cant) Fodd bynnag, cafwyd cynnydd o 5 y cant mewn gwariant cysylltiedig yn Ne-ddwyrain Cymru, sy'n nes at y 6 y cant a welwyd yn gyffredinol yng Nghymru.

**Arhosodd nifer y teithiau dros nos rhyngwladol i Dde-ddwyrain Cymru yn wastad, ond gwelir twf cryf mewn gwariant cysylltiedig.**

**Tabl 1.2 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Tair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| | Teithiau (miliynau) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2018** | **% y teithiau** | **2017-2019** | **% y teithiau** | **% o newid** |
| Prydain | 40.164 | | 40.740 | | 1% |
| Cymru | 1.060 | 100% | 1.041 | 100% | -2% |
| Gogledd Cymru | 0.303 | 29% | 0.299 | 29% | -1% |
| Canolbarth Cymru | 0.107 | 10% | 0.099 | 10% | -7% |
| **De-ddwyrain Cymru** | **0.525** | **50%** | **0.525** | **50%** | **0%** |
| De-orllewin Cymru | 0.198 | 19% | 0.187 | 18% | -5% |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | |
| | **2016-2018** | **% y gwariant** | **2017-2019** | **% y gwariant** | **% o newid** |
| Prydain | £26,631 | | £27,637 | | 4% |
| Cymru | £446 | 100% | £448 | 100% | 1% |
| Gogledd Cymru | £90 | 20% | £89 | 20% | -1% |
| Canolbarth Cymru | £54 | 12% | £31 | 7% | -43% |
| **De-ddwyrain Cymru** | **£196** | **44%** | **£224** | **50%** | **14%** |
| De-orllewin Cymru | £95 | 21% | £92 | 20% | -4% |

Arhosodd nifer yr ymweliadau rhyngwladol â De-ddwyrain Cymru yn sefydlog yn 2017-2019 o gymharu â 2016-2018, ond cafwyd mymryn o ostyngiad, sef 2 y cant, yn nifer y teithiau rhyngwladol i Gymru'n gyffredinol.  Dros yr un cyfnod, cafwyd cynnydd o 14 y cant mewn gwariant cysylltiedig gan ymwelwyr rhyngwladol yn Ne-ddwyrain Cymru, y cynnydd mwyaf o'r holl ranbarthau, ac yn llawer uwch na'r cynnydd o 1 y cant a welwyd yng Nghymru ar gyfartaledd.

**Gostyngodd ymweliadau a gwariant twristiaeth undydd yn Ne-ddwyrain Cymru, ac yng Nghymru'n gyffredinol,  rhwng 2016-2018 a 2017-2019.**

**Tabl 1.3 Nifer yr ymweliadau undydd Twristiaeth (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol Tair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teithiau (miliynau)** | | | | | |
| | **2016-2018** | **% y teithiau** | **2017-2019** | **% y teithiau** | **% o newid** |
| Prydain | 1,776.7 | | 1,716.4 | | -3% |
| Cymru | 99.3 | 100% | 94.4 | 100% | -5% |
| Gogledd Cymru | 25.0 | 25% | 22.7 | 24% | -9% |
| Canolbarth Cymru | 11.0 | 11% | 12.3 | 13% | 12% |
| **De-ddwyrain Cymru** | **39.0** | **39%** | **37.7** | **40%** | **-3%** |
| De-orllewin Cymru | 24.3 | 24% | 22.7 | 24% | -7% |
| **Gwariant (£ miliwn)** | | | | | |
| | **2016-2018** | **% y gwariant** | **2017-2019** | **% y gwariant** | **% o newid** |
| Prydain | £63,378 | | £64,402 | | 2% |
| Cymru | £4,146 | 100% | £3,929 | 100% | -5% |
| Gogledd Cymru | £920 | 22% | £703 | 18% | -24% |
| Canolbarth Cymru | £388 | 9% | £628 | 16% | 62% |
| **De-ddwyrain Cymru** | **£1,735** | **42%** | **£1,550** | **39%** | **-11%** |
| De-orllewin Cymru | £813 | 20% | £762 | 19% | -6% |

Er bod nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth wedi gostwng 3 y cant rhwng 2016-2018 a 2017-2019, cafwyd gostyngiad mwy yng Nghymru'n gyffredinol - sef gostyngiad o 5 y cant. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad o 5 y cant mewn gwariant cysylltiedig ledled Cymru dros yr un cyfnod, ond gostyngiad o 11 y cant mewn gwariant yn Ne-ddwyrain Cymru.


## 2. Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o Arolwg Twristiaeth Prydain. Cyfartaleddau blynyddol a gymerwyd dros dair blynedd, 2017-2019, yw'r ffigurau a ddangosir, oni nodir fel arall.

**Dangosyn 2.0 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru fesul Rhanbarth yng Nghymru – Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*





**Dangosyn 2.1 Cyfran (%) y Gwariant yn Gysylltiedig â Theithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru fesul Rhanbarth yng Nghymru – Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




Dros 2017-2019, derbyniodd De-ddwyrain Cymru gyfartaledd blynyddol o 2.3 miliwn o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain bob blwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, gwariodd yr ymwelwyr hyn gyfartaledd blynyddol o £393 miliwn. Derbyniodd De-ddwyrain Cymru bron chwarter (23 y cant) yr holl deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain yng Nghymru, a 22 y cant o wariant cysylltiedig, gan olygu mai dyma oedd rhanbarth mwyaf poblogaidd Cymru, ar wahân i Ogledd Cymru, ar gyfer y math hwn o dwristiaeth. Mae'r gyfran ranbarthol o ymwelwyr dros nos domestig yn gyson ar y cyfan dros y tymor hwy.

## Nifer y Teithiau a Gwariant Cysylltiedig


**Dangosyn 2.2 Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain (miliynau) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) i Dde-ddwyrain Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Source: Great Britain Tourism Survey*




Dros amser, mae nifer y teithiau dros nos domestig a'r gwariant cysylltiedig yn Ne-ddwyrain Cymru wedi tueddu i ostwng a chynyddu'n gyfochr â'i gilydd. Yn dilyn gostyngiad sydyn yn 2016-2018, cafwyd cynnydd bach yn nifer y teithiau a'r gwariant cysylltiedig i gyrraedd cyfartaledd blynyddol o 2.3 miliwn o deithiau a £393 miliwn mewn gwariant cysylltiedig yn 2017-2019.

**Gwariant Cyfartalog fesul Taith**


**Dangosyn 2.3 Gwariant Cyfartalog fesul Taith Dros Nos Ddomestig o Brydain i Gymru a De-ddwyrain Cymru (£) - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




Mae'r gwariant cyfartalog fesul taith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain yn Ne-ddwyrain Cymru wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru gyfan ers 2006-2008, ond mae hyd cyfartalog y teithiau hefyd wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru (gweler Ffigur 2.3). Rhwng 2016-2018 a 2017-2019 cynyddodd y gwariant cyfartalog fesul ymweliad dros nos domestig yn Ne-ddwyrain Cymru o £166 i £171, tra cynyddodd cyfartaledd Cymru o £182 i £184.

## Nifer Cyfartalog y Nosweithiau fesul Taith

**Dangosyn 2.4 Nifer Cyfartalog o Nosweithiau fesul Taith Dros Nos Ddomestig o Brydain i Gymru a De-ddwyrain Cymru – Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




Mae nifer cyfartalog y nosweithiau fesul taith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain i Dde-ddwyrain Cymru wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru gyfan. Yn 2017-2019, nifer cyfartalog y nosweithiau fesul taith yn Ne-ddwyrain Cymru oedd 2.67 o nosweithiau. Mae hyn yn is na'r holl ranbarthau eraill, a chyfartaledd Cymru gyfan oedd 3.42.


## Diben y Daith

**Tabl 2.1 Nifer y Teithiau dros nos domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Diben y Daith yng Nghymru gyfan ac yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **9.914** | **2.307** |
| Gwyliau | 6.278 | 0.949 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 2.634 | 0.932 |
| Busnes | 0.723 | 0.338 |

Yn ystod 2017-2019, dim ond dwy ran o bump (41 y cant) o ymwelwyr dros nos â De-ddwyrain Cymru a ddaeth ar wyliau - cyfran lai nag yng Nghymru ar gyfartaledd (63 y cant). Teithiau i ymweld â ffrindiau neu berthnasau oedd dwy ran o bump arall (40 y cant) o deithiau dros nos yn Ne-ddwyrain Cymru, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 27 y cant. Roedd teithiau busnes i gyfrif am 15 y cant o ymweliadau dros nos yn Ne-ddwyrain Cymru, y gyfran fwyaf o holl ranbarthau Cymru.


**Dangosyn 2.5 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan ac i Ranbarthau Cymru yn ôl Diben y Daith – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

## Hyd y Teithiau Gwyliau

**Dangosyn 2.6 Cyfran (%) y Teithiau Gwyliau Dros Nos Domestig o Brydain yn ôl Hyd y Daith i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

Roedd teithiau gwyliau i Dde-ddwyrain Cymru yn 2017-2019 yn fwy tebygol o fod yn 1-3 noson o hyd, ac yn llai tebygol o fod yn 4 noson o hyd neu fwy, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer yr holl wyliau yng Nghymru. Roedd tri chwarter y teithiau gwyliau dros nos i Dde-ddwyrain Cymru yn 1-3 noson o hyd, o gymharu â 60 y cant yn gyffredinol ar gyfer Cymru. Mae dosbarthiad y teithiau o ran eu hyd wedi bod yn gymharol gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

## Cyfnod Bywyd y Teithiau Gwyliau


**Tabl 2.2 Nifer y Teithiau Gwyliau dros nos domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Cyfnod Bywyd yng Nghymru Gyfan a De-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau Gwyliau** | **6.278** | **0.949** |
| Cyn-Nythwyr (16-34 yn ddi-briod ac wedi priodi a heb blant) | 0.724 | 0.152 |
| Teuluoedd (16-34 gyda phlant a 35-54 gyda phlant) | 2.284 | 0.353 |
| Pobl Hŷn Annibynnol (35-54 dim plant) | 1.089 | 0.147 |
| Pobl y mae eu plant wedi gadael cartref (55+) | 2.169 | 0.295 |

Teuluoedd oedd yn ffurfio'r gyfran fwyaf o ymweliadau gwyliau yn Ne-ddwyrain Cymru yn ystod 2017-2019, ar 37 y cant, ac wedyn Rhieni y mae eu plant wedi gadael cartref ar 31 y cant. Mae'r


cyfrannau o bobl o wahanol gyfnodau oes sy'n ymweld â De-ddwyrain Cymru ar wyliau yn 2017-2019 yn weddol debyg i'r cyfrannau cyffredinol ar gyfer Cymru.  Fodd bynnag, derbyniodd De-ddwyrain Cymru ymweliadau gwyliau gan gyfran lai o bobl y mae eu plant wedi gadael cartref a chyfran fwy o gyn-nythwyr na chyfartaledd Cymru. Bu'r duedd hon yn gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**Dangosyn 2.7 Cyfran (%) y Teithiau Gwyliau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Cyfnod Bywyd – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




## Tymhorau'r Teithiau

**Dangosyn 2.8 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Tymor- Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
***Ffynhonnell**: Arolwg Twristiaeth Prydain*




De-ddwyrain Cymru yw'r unig ranbarth yng Nghymru nad yw'n dilyn patrwm tymhorol prysur a


thawel nodweddiadol, ond sy'n cynnwys cyfrannau tebyg o ymwelwyr ym mhob un o'r pedwar chwarter. O gymharu â Chymru gyfan, roedd gan Dde-ddwyrain Cymru gyfran sylweddol uwch o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain yn 2017-2019 a oedd yn cyrraedd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth (24 y cant o gymharu ag 16 y cant) a chyfran uwch na Chymru gyfan o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain a oedd yn cyrraedd ym mis Hydref-Rhagfyr (25 y cant ac 19 y cant yn y drefn honno). Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw bod cyfran fwy o deithiau yn ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau neu'n ymweliadau busnes.

### Math o le yr ymwelwyd ag ef

**Tabl 2.4 Nifer y Teithiau dros nos domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef yng Nghymru gyfan ac yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **9.914** | **2.307** |
| Glan y Môr | 4.259 | 0.320 |
| Dinas fawr / tref fawr | 1.781 | 1.216 |
| Tref fach | 1.869 | 0.446 |
| Cefn Gwlad / pentref | 2.293 | 0.321 |

**Dangosyn 2.9 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef yng Nghymru gyfan ac yn Rhanbarthau Cymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl y bydd y ffigurau'n creu cyfanswm mwy na 100% oherwydd y gallu i ymweld â mwy nag un Math o Le.*

Yn 2017-2019, y gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain i Dde-ddwyrain Cymru oedd dinas neu dref fawr, gyda 53 y cant ohonynt yn ymweliadau â'r math hwn o gyrchfan. Roedd hon yn fwy na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 18 y cant, a dyma oedd y gyfran fwyaf o blith pob rhanbarth yng Nghymru.

Yn Ne-ddwyrain Cymru, y mathau lleiaf poblogaidd o gyrchfannau ar gyfer taith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain yn 2017-2019 oedd cefn gwlad a glan y môr, gyda'r naill a'r llall yn derbyn ond 14 y cant o ymweliadau, sydd yn llawer is na chyfartaledd Cymru o 23 y cant â chefn gwlad a 43 y cant â glan y môr. Derbyniodd De-ddwyrain Cymru y gyfran leiaf o ymweliadau â chyrchfannau yng nghefn gwlad ac ar lan y môr o blith pedwar rhanbarth Cymru. Roedd y gyfran a oedd yn ymweld â thref fechan (sef 19 y cant) ymhlith ymweliadau dros nos domestig â De-ddwyrain Cymru yr un peth â'r gyfran gyffredinol ar gyfer Cymru.

Mae'n bwysig cofio mai ymatebwyr eu hunain sy'n dewis sut i ddisgrifio'r math o le y maent yn ymweld ag ef, felly mae'r ymatebion yn oddrychol. Er enghraifft, gallai rhywun alw eu lleoliad yn 'bentref' yn hytrach na 'thref fechan'.

## Math o lety a ddefnyddiwyd ar daith

Sylwch y gall ymwelwyr dros nos domestig o Brydain Fawr aros mewn mwy nag un math o lety yn ystod un daith. Oherwydd hyn, bydd cyfrannau'r holl deithiau fesul pob math o lety bob amser yn creu cyfanswm o fwy na 100 y cant. Ar ben hynny, dim ond y mathau o lety a chanddynt sampl digon mawr i'w ddadansoddi ar draws pob un o bedwar rhanbarth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon.

Gweler [Tabl 7.6] am restr lawn o atebion posibl sydd wedi'u cynnwys o dan bob math o lety er mwyn cyfrifo'r cyfartaleddau tair blynedd.


**Tabl 2.5 Nifer y Teithiau dros nos domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Math o Lety a Ddefnyddiwyd yn ystod taith i Gymru a De-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **9.914** | **2.307** |
| Gwesty / Motel | 2.452 | 0.909 |
| Tŷ Llety/Ffermdy/Gwely a Brecwast | 0.720 | 0.096 |
| Llety Hunanddarpar | 1.341 | 0.131 |
| Cartref ffrind/Cartref perthynas/Ail gartref/Cyfran gyfnodol | 2.702 | 0.909 |
| Carafanio a Gwersylla | 2.586 | 0.224 |

Yn 2017-2019, y mathau mwyaf poblogaidd o lety a ddefnyddiwyd ar daith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain â De-ddwyrain Cymru oedd gwestai / motels a chartrefi ffrindiau/perthnasau / ail gartrefi - y defnyddiwyd pob un ohonynt ar 39 y cant o ymweliadau. Yn Ne-ddwyrain Cymru gwelwyd y gyfran fwyaf o'r ymweliadau lle defnyddiwyd gwestai/motels o blith holl ranbarthau Cymru, a'r gyfran fwyaf a arhosodd yng nghartrefi ffrindiau/perthnasau/mewn ail gartrefi.

Roedd cyfrannau'r ymweliadau dros nos domestig yn Ne-ddwyrain Cymru lle defnyddiwyd carafán / safle gwersylla, llety hunanddarpar a gwesty bach/gwely a brecwast yn is na chyfartaledd Cymru. Ym mhob un o'r tri chategori hefyd gwelwyd y cyfrannau lleiaf o blith holl ranbarthau Cymru yn Ne-ddwyrain Cymru.

**Dangosyn 2.10 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Math o Lety - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Tabl 2.6 Gwerth Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain yn ôl Math o Lety a Ddefnyddiwyd yn ystod taith i Gymru a De-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant** | **£1,828** | **£393** |
| Gwesty / Motel | £557 | £206 |
| Tŷ Llety/Ffermdy/Gwely a Brecwast | £195 | £21 |
| Llety Hunanddarpar | £395 | £39 |
| Cartref ffrind/Cartref perthynas/Ail gartref/Cyfran gyfnodol | £233 | £87 |
| Carafanio a Gwersylla | £362 | £25 |


Yn ystod 2017-2019, roedd yr ymweliadau dros nos domestig a oedd yn cynnwys arhosiad mewn gwesty/motel i gyfrif am dros hanner (52 y cant) y gwariant dros nos domestig yn Ne-ddwyrain Cymru, ond dim ond dwy ran o bump (39 y cant) o deithiau a ddefnyddiai'r math hwn o lety. I'r gwrthwyneb, roedd arosiadau gyda ffrindiau/perthnasau/mewn ail

gartref i gyfrif am yr un gyfran, dwy ran o bump o deithiau (39 y cant), â gwestai/llety motel, ond dim ond pumed rhan (22 y cant) o wariant gan ymwelwyr dros nos domestig.

Roedd cyfran y gwariant yn Ne-ddwyrain Cymru ar deithiau lle defnyddiwyd gwestai/motels yn uwch na chyfartaledd Cymru, a dyma oedd y gyfran uchaf o blith holl ranbarthau Cymru. Gan fod cyfran is na'r cyfartaledd o deithiau yn cynnwys defnyddio carafán / gwersylla, llety hunanddarpar a gwesty bach/gwely a brecwast yn Ne-ddwyrain Cymru, nid yw'n syndod mai dyma lle cafwyd y gyfran isaf o wariant yn gysylltiedig â hynny.

**Dangosyn 2.11 Cyfran (%) y Gwariant yn Gysylltiedig â Theithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan ac i Ranbarthau Cymru yn ôl Math o Lety – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**

*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*



### Rhanbarth Tarddiad

**Tabl 2.7 Nifer y Teithiau dros nos domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Rhanbarth Tarddiad yng Nghymru gyfan ac yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | | De-ddwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | 9.914 | **100%** | 2.307 | **100%** |
| Yr Alban | 0.111 | 1% | 0.029 | 1% |
| Cymru | 1.76 | 18% | 0.441 | 19% |
| Lloegr | 8.044 | 81% | 1.837 | 80% |
| | | | | |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 0.088 | 1% | 0.017 | 1% |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 1.976 | 20% | 0.154 | 7% |
| Swydd Efrog a Humber | 0.403 | 4% | 0.080 | 3% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 0.669 | 7% | 0.148 | 6% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 1.921 | 19% | 0.258 | 11% |
| Dwyrain Lloegr | 0.373 | 4% | 0.120 | 5% |
| Llundain | 0.577 | 6% | 0.255 | 11% |
| De-ddwyrain Lloegr | 1.132 | 11% | 0.446 | 19% |
| De-orllewin Lloegr | 0.905 | 9% | 0.358 | 16% |

Yn 2017-2019, daeth pedair rhan o bump (80 y cant) o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain yn Ne-ddwyrain Cymru o Loegr, sef cyfran debyg i gyfartaledd Cymru gyfan, ac yn gyson â'r ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd bron i un o bob pump (19 y cant) yn ymwelwyr o Gymru, ac roedd yr un gyfran yn drigolion o Dde-ddwyrain Lloegr. Deuai'r gyfran ranbarthol fwyaf ond un o ymwelwyr o Dde-orllewin Lloegr (16 y cant), ac ar ôl hynny deuai 11 y cant yr un o Orllewin Canolbarth Lloegr a Llundain.


## 3. Ymwelwyr Rhyngwladol â Chymru

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Cyfartaleddau a gymerwyd dros gyfnodau treigl o dair blynedd yw'r ffigurau, oni nodir fel arall.

Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol amcangyfrifon diwygiedig o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar gyfer ymweliadau i mewn rhwng 2009 a 2019 yn seiliedig ar ddiweddariad o'r dull pwysoli. Ceir manylion pellach ar Dudalennau teithio a thwristiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r adran hon yn defnyddio fersiwn wedi'i diweddaru o'r data, felly ni fydd ffigurau a ddyfynnir yma ar gyfer 2009 hyd 2018 yn cyfateb â'r ffigurau mewn cyhoeddiadau blaenorol. Mae tablau sy'n crynhoi'r data gwreiddiol a diwygiedig ar gyfer 2009-2019 yn Nhabl 7.2.

**Dangosyn 3.0 Cyfran (%) yr Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru yn ôl Rhanbarth Cymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*





*Sylwch y gallai'r ffigurau greu cyfanswm mwy na 100 y cant oherwydd y gallu i ymweld â mwy nag un rhanbarth.*

Dros y cyfnod 2017-2019, derbyniodd De-ddwyrain Cymru gyfartaledd blynyddol o 525,000 o ymweliadau rhyngwladol bob blwyddyn. Dros yr un cyfnod cyfrannodd yr ymweliadau hyn at gyfartaledd o £224 miliwn y flwyddyn at wariant twristiaeth yn y rhanbarth hwn. Derbyniodd De-ddwyrain Cymru hanner (50 y cant) o'r holl ymweliadau rhyngwladol â Chymru, yr un gyfran â'r cyfnod blaenorol, 2016-2018.

## Nifer yr Ymweliadau a Gwariant Cysylltiedig

**Dangosyn 3.1 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (miloedd) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) yng Ne-ddwyrain Cymru – Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Source: International Passenger Survey*





Mae nifer yr ymweliadau rhyngwladol â De-ddwyrain Cymru wedi parhau'n wastad dros yr ychydig

gyfnodau diwethaf ers 2015-2017, ar oddeutu 525,000 y flwyddyn. Dechreuodd nifer yr ymweliadau ostwng tua 2007-2009, ond dechreuodd y nifer wella o 2011-2013. Dengys y gwariant cysylltiedig o ymweliadau rhyngwladol â De-ddwyrain Cymru gynnydd cyffredinol o 2007-2009, a chynnydd sylweddol rhwng 2016-2018 a 2017-2019 i gyrraedd £224 miliwn o gymharu â £196 miliwn y cyfnod blaenorol.

## Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad


**Dangosyn 3.2 Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad Rhyngwladol (£) yng Nghymru Gyfan ac yng Ne-ddwyrain Cymru – Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*




Yn 2017-2019, y gwariant cyfartalog fesul ymweliad rhyngwladol â De-ddwyrain Cymru oedd £426, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef £431. Rhwng 2006-2008 a 2010-2012 roedd y gwariant cyfartalog fesul taith i Dde-ddwyrain Cymru yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru gyfan, ond rhwng 2011-13 a 2016-2018 roedd y gwariant cyfartalog fesul ymweliad rhyngwladol â De-orllewin Cymru yn llawer is na chyfartaledd Cymru, a gostyngodd rhyw fymryn. Fodd bynnag, yn 2017-2019, cynyddodd gwariant cyfartalog o £374 yn 2016-2018 i £426, gan nesáu at gyfartaledd Cymru. Mae nifer cyfartalog y nosweithiau fesul ymweliad â De-ddwyrain Cymru yn tueddu i fod yn is na chyfartaledd Cymru, (gweler Dangosyn 3.3) a allai esbonio pam bod y gwariant cyfartalog fesul taith yn tueddu i fod yn is.

## Nifer cyfartalog y Nosweithiau fesul Ymweliad

**Dangosyn 3.3 Nifer Cyfartalog y Nosweithiau fesul Ymweliad Rhyngwladol â Chymru a De-ddwyrain Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*




Hyd taith cyfartalog yr ymweliadau rhyngwladol â De-ddwyrain Cymru yn 2017-2019 oedd 6.18 o nosweithiau, sydd fymryn yn is na chyfartaledd Cymru o 6.91 o nosweithiau. Bu hyd cyfartalog teithiau yn Ne-ddwyrain Cymru yn gyson is na chyfartaledd Cymru gyfan, ac o 2010-2012 er i gyfartaledd Cymru gyfan hefyd ostwng, gostyngodd hyd cyfartalog teithiau i Dde-ddwyrain Cymru yn gynt, gan ehangu'r bwlch. Yn 2017-2019 gwelwyd cynnydd bach yn Ne-ddwyrain Cymru o 5.91 noson i 6.18 noson, gan ddod â'r ffigur yn nes at gyfartaledd Cymru, a arhosodd yn fwy cyson, gan gynyddu o 6.87 i 6.91 noson.

## Diben y Daith


**Tabl 3.1 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (miloedd) yn ôl Diben y Daith yng Nghymru a De-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **1,041** | **525** |
| Gwyliau | 424 | 222 |
| Busnes | 159 | 96 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 382 | 185 |
| Arall | 65 | 17 |
| Astudio | 11 | 5 |

Yn 2017-2019, roedd y gyfran fwyaf o ymweliadau rhyngwladol â De-ddwyrain Cymru yn ymweliadau ar gyfer gwyliau (42 y cant), sy'n debyg i gyfartaledd Cymru (41 y cant). Yr ail reswm mwyaf cyffredin dros ymweld â'r rhanbarth oedd ymweld â ffrindiau neu berthnasau. Roedd hyn i gyfrif am dros draean (35 y cant) yr ymweliadau, sef cyfran ychydig yn llai na Chymru'n gyffredinol (37 y cant).

Gwelwyd cyfran fwy o ymweliadau rhyngwladol ar gyfer busnes yn y rhanbarth (18 y cant) nag yng Nghymru ar gyfartaledd (15 y cant).

**Dangosyn 3.4 Cyfran (%) yr Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Diben y Daith – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*





**Tabl 3.2 Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) o Ymweliadau Rhyngwladol yn ôl Diben y Daith yng Nghymru Gyfan ac yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant** | **448.4** | **224.0** |
| Gwyliau | 178.2 | 81.4 |
| Busnes | 63.6 | 42.8 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 151.0 | 70.0 |
| Arall | 20.2 | 8.0 |
| Astudio | 35.5 | 21.8 |

**Dangosyn 3.5 Cyfran (%) y Gwariant yn Gysylltiedig ag Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Diben y Daith – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**

*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*




Fel y gwelir ar draws pob un o bedwar rhanbarth Cymru, ymwelwyr rhyngwladol sy'n dod i astudio sydd i gyfrif am gyfran fwy o'r gwariant cysylltiedig, o ran nifer yr ymweliadau. Yn 2017-2019, roedd yr 1 y cant o ymwelwyr rhyngwladol a oedd yn dod i Dde-ddwyrain Cymru i astudio i gyfrif am 10 y cant o'r holl wariant cysylltiedig gan ymwelwyr rhyngwladol â'r rhanbarth.

I'r gwrthwyneb, roedd ymwelwyr gwyliau rhyngwladol i gyfrif am dros ddwy ran o bump (42 y cant) o deithiau rhyngwladol i'r rhanbarth yn 2017-2019, ond dim ond ychydig dros draean (36 y cant) o wariant cysylltiedig. Roedd ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau hefyd i gyfrif am 42 y cant o deithiau rhyngwladol i'r rhanbarth, ond dim ond 31 y cant o'r gwariant cysylltiedig.

Roedd teithiau busnes rhyngwladol i gyfrif am gyfrannau tebyg o niferoedd y teithiau rhyngwladol a'r gwariant cysylltiedig, gydag 18 y cant o ymweliadau ac 19 y cant o wariant cysylltiedig wedi'u priodoli i'r math hwn o ymwelydd.

**Gwlad Tarddiad**

Sylwch nad yw tabl 3.3 ond yn dangos deg gwlad tarddiad uchaf ymwelwyr rhyngwladol yn ôl nifer yr ymweliadau â De-ddwyrain Cymru a Chymru gyfan.

**Tabl 3.3 Y 10 Uchaf o blith Gwledydd Tarddiad Ymweliadau Rhyngwladol ar sail Nifer yr Ymweliadau (000oedd) a chyfrannau (%) ar gyfer Cymru gyfan a De-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| Cymru Gyfan | | | De-ddwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pob Ymweliad** | **1,041** | **100%** | **Pob Ymweliad** | **525** | **100%** |
| 1. Iwerddon | 164 | 16% | 1 . Ffrainc | 51 | 10% |
| 2. UDA | 108 | 10% | 2. UDA | 49 | 9% |
| 3. Yr Almaen | 80 | 8% | 3. Iwerddon | 46 | 9% |
| 4. Ffrainc | 73 | 7% | 4. Yr Almaen | 37 | 7% |
| 5. Yr Iseldiroedd | 58 | 6% | 5. Yr Eidal | 28 | 5% |
| 6. Awstralia | 53 | 5% | 6. Sbaen | 28 | 5% |
| 7. Sbaen | 47 | 4% | 7. Yr Iseldiroedd | 26 | 5% |
| 8. Yr Eidal | 41 | 4% | 8. Awstralia | 22 | 4% |
| 9. Gwlad Pwyl | 36 | 3% | 9. Tsieina | 19 | 4% |
| 10. Canada | 31 | 3% | 10. Canada | 17 | 3% |

Y wlad tarddiad fwyaf cyffredin ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â De-ddwyrain Cymru yn ystod 2017-2019 oedd Ffrainc (10 y cant), ac wedyn UDA (9 y cant) ac Iwerddon (9 y cant).

Roedd 10 gwlad tarddiad uchaf ymwelwyr rhyngwladol â De-ddwyrain Cymru yn 2017-2019 yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru, ac eithrio'r ffaith nad yw Gwlad Pwyl wedi'i gynnwys yn 10 uchaf De-ddwyrain Cymru, a Tsieina wedi'i chynnwys yn ei lle.


## 4. Ymweliadau Undydd Twristiaeth

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o Arolwg ymweliadau undydd Prydain. Ceir tri math o ymweliad undydd: 'ymweliadau undydd Hamdden 3 awr+', 'ymweliadau undydd twristiaeth, a 'Gweithgareddau sy'n Graidd i Ymweliadau Twristiaeth'. **Nid yw'r adran hon ond yn trafod ffigurau ar gyfer ymweliadau undydd twristiaeth.** Ceir hyd i ffigurau ar gyfer ymweliadau undydd eraill i ddibenion hamdden yn Adroddiadau Blynyddol ymweliadau undydd Prydain. Cyfartaleddau a gymerwyd dros dair blynedd yw'r ffigurau a ddangosir, oni nodir fel arall: 2017-2019.

*Sylwch fod y dull o gynnal yr arolwg wedi cael ei ddiwygio droeon ers 2016, a bod hynny wedi effeithio ar y gallu i gymharu ffigurau 2011-2015 â'r ffigurau o 2016 ymlaen. I unioni hyn, mae'r ffigurau cyn 2016 wedi'u hailbwysoli ar sail +15 y cant fel bo modd eu cymharu. Mae'n bosibl felly*

*nad yw rhai o'r ffigurau isod ar gyfer ymweliadau undydd Twristiaeth yn cyfateb â'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol.*


**Dangosyn 4.0 Cyfran (%) yr Ymweliadau Undydd Twristiaeth â Phob Rhanbarth yng Nghymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydainz*




Yn ystod 2017-2019, derbyniodd De-ddwyrain Cymru gyfartaledd blynyddol o 38 miliwn o ymweliadau undydd twristiaeth, a gwariant cysylltiedig o £1.5 biliwn y flwyddyn. At hynny, derbyniodd De-ddwyrain Cymru 40 y cant o'r holl ymweliadau undydd twristiaeth â Chymru. Cyflawnir cyfran fawr o ymweliadau undydd twristiaeth â Chymru gan bobl sy'n byw yng Nghymru, felly mae'n debyg mai'r sylfaen boblogaeth fwy yn Ne-ddwyrain sydd i gyfrif am y gyfran uchaf o ymweliadau undydd twristiaeth a gynhelir yn y rhanbarth hwnnw.

## Ymweliadau Undydd Twristiaeth a Gwariant Cysylltiedig

**Dangosyn 4.1 Nifer yr Ymweliadau Dydd Twristiaeth (miliynau) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




Rhwng 2011-2013 a 2014-2016, cafwyd cynnydd cyson yn nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth i Dde-ddwyrain Cymru, gan gyrraedd 37 miliwn yn 2014-2016. Er 2014-2016, mae'r nifer wedi aros yn gymharol sefydlog, sef 38-39 miliwn dros y tri chyfnod diwethaf. Rhwng 2016-2018 a 2017-2019, cafwyd gostyngiad o 3 y cant yn nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru, a gostyngiad o 5 y cant yn nifer yr ymweliadau â Chymru'n gyffredinol.

Gostyngodd gwariant cysylltiedig rhwng 2011-2013 a 2013-2015, cyn cynyddu i gyrraedd £1,735 miliwn yn 2016-2018, ond yn 2017-2019 gostyngodd hyn eto i £1,550 miliwn. Roedd hyn yn ostyngiad o 11 y cant mewn gwariant ar ymweliadau undydd twristiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru, sy'n ostyngiad mwy na'r 5 y cant o ostyngiad mewn gwariant a welwyd yn gyffredinol yng Nghymru.

## Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad

**Dangosyn 4.2 Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad Dydd Twristiaeth (£) yng Nghymru Gyfan ac yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




Roedd y gwariant cyfartalog fesul ymweliad undydd twristiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru wedi parhau'n gyson uwch na chyfartaledd Cymru, gan gyrraedd £44 yn 2016-2018, ond yn 2017-2019 gostyngodd yn is na chyfartaledd Cymru, gan ostwng 8 y cant i £41, ond arhosodd cyfartaledd Cymru'n wastad ar £42.

## Gweithgareddau a gyflawnwyd

**Tabl 4.1 Nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth (miliynau) a Chyfran (%) y gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod ymweliad undydd twristiaeth yng Nghymru Gyfan ac yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*

| Cymru Gyfan | | | | De-ddwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob Ymweliad** | **94.4** | **100%** | | **Pob Ymweliad** | **37.7** | **100%** |
| Ymweld â ffrindiau/perthnasau | 22.0 | 23% | | Ymweld â ffrindiau/perthnasau | 7.9 | 21% |
| Mynd allan am bryd o fwyd | 9.7 | 10% | | Mynd allan am bryd o fwyd | 3.7 | 10% |
| Gweithgareddau awyr agored | 8.7 | 9% | | Gweithgareddau awyr agored | 2.6 | 7% |
| Diwrnod allan cyffredinol | 7.8 | 8% | | Diwrnod allan cyffredinol | 2.5 | 7% |
| Mynd ar noson allan | 6.8 | 7% | | Mynd ar noson allan | 3.1 | 8% |
| Siopa arbennig | 6.3 | 7% | | Siopa arbennig | 3.0 | 8% |
| Mynd allan am adloniant | 4.8 | 5% | | Mynd allan am adloniant | 2.6 | 7% |
| Mynd i atyniadau ymwelwyr | 4.5 | 5% | | Mynd i atyniadau ymwelwyr | 1.6 | 4% |
| Gwylio digw. chwaraeon byw | 3.4 | 4% | | Gwylio digw. chwaraeon byw | 2.0 | 5% |
| Achlysuron personol arbennig | 2.9 | 3% | | Achlysuron personol arbennig | 1.0 | 3% |
| Digw. cyhoeddus arbennig | 2.5 | 3% | | Digw. cyhoeddus arbennig | 0.8 | 2% |
| Cymryd rhan mewn chwaraeon | 1.4 | 1% | | Cymryd rhan mewn chwaraeon | 0.6 | 1% |
| Diwrnod allan i sba iechyd/harddwch | 0.7 | 1% | | Diwrnod allan i sba iechyd/harddwch | 0.3 | 1% |
| Hamdden / hobïau eraill | 2.1 | 2% | | Hamdden / hobïau eraill | 0.9 | 2% |
| Diwrnod arall allan i ddibenion hamdden | 3.2 | 3% | | Diwrnod arall allan i ddibenion hamdden | 0.6 | 2% |

Roedd ychydig dros un o bob pum (21 y cant) ymweliad undydd twristiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru, bron 8 miliwn, yn ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau yn 2017-2019, gan olygu mai dyma oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd a gyflawnwyd ar ymweliad undydd twristiaeth â'r rhanbarth hwn, er bod y gyfran fymryn yn llai na chyfartaledd Cymru gyfan o 23 y cant.


Roedd cyfran ychydig yn llai o ymweliadau undydd twristiaeth â De-ddwyrain Cymru yn ymweliadau i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored (7 y cant) o gymharu â chyfartaledd Cymru o 9 y cant, a chyfran ychydig yn uwch yn ymweliadau i fynd allan am adloniant (7 y cant) na chyfartaledd Cymru o 5 y cant.

**Math o le yr ymwelwyd ag ef**

**Tabl 4.2 Nifer yr ymweliadau undydd Twristiaeth (miliynau) yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef yng Nghymru gyfan ac yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymweliadau** | **94** | **38** |
| Dinas / Tref fawr | 29 | 15 |
| Tref fach | 24 | 9 |
| Pentref / Cefn Gwlad | 24 | 9 |
| Glan y Môr / Yr Arfordir | 17 | 4 |

**Dangosyn 4.3 Cyfran (%) yr Ymweliadau Dydd Twristiaeth â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

Yn Ne-ddwyrain Cymru, nid yw'n syndod mai'r math o le yr ymwelwyd ag ef fwyaf ar ymweliad undydd twristiaeth oedd dinas/tref fawr, gyda dwy ran o bump (40 y cant, 15 miliwn) o ymwelwyr undydd twristiaeth yn dewis hyn, sydd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 30 y cant.


Roedd gan Dde-ddwyrain Cymru gyfran lai (10 y cant) o ymweliadau undydd twristiaeth â glan y môr/â'r arfordir o gymharu â Chymru gyfan, sef 18 y cant.  Mae dosbarthiad y mathau o lefydd yr ymwelwyd â hwy yn Ne-ddwyrain Cymru yn ystod 2017-2019 yn debyg iawn i gyfnodau blaenorol.

## Dull Teithio a Ddefnyddiwyd

**Tabl 4.3 Nifer yr ymweliadau undydd Twristiaeth (miliynau) yn ôl Dull Teithio yng Nghymru Gyfan ac yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymweliadau** | **94** | **38** |
| Car - ei hun/ffrind/teulu | 66 | 23 |
| Trên | 8 | 4 |
| Cerdded | 6 | 3 |
| Bws\coets | 5 | 3 |
| Arall | 9 | 4 |

**Dangosyn 4.4 Cyfran (%) yr Ymweliadau Undydd Twristiaeth â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Dull Teithio a Ddefnyddiwyd - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




**Mae'r categori 'Arall' yn cynnwys: car llog, taith coets wedi'i threfnu, tacsi, beic, tiwb, tram, carafan modur/campyrfan, awyren, cwch, lori/fan*

Fel y gwelwyd yn rhanbarthau eraill Cymru, y car oedd y dull teithio a ffafriwyd ar fwyafrif yr ymweliadau undydd twristiaeth (62 y cant) yn ystod 2017-2019 yn Ne-ddwyrain Cymru, er bod hynny'n is na'r gyfran ar gyfer Cymru gyfan lle defnyddiwyd ceir ar 70 y cant o ymweliadau undydd twristiaeth.  Defnyddiwyd trenau, bws/coets, cerdded a dulliau teithio eraill ar gyfran ychydig yn fwy o ymweliadau undydd twristiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru na chyfartaledd Cymru.

**Pellter a deithiwyd**


**Tabl 4.4 Nifer yr ymweliadau undydd Twristiaeth (miliynau) yn ôl Pellter a Deithiwyd yng Nghymru Gyfan ac yn Ne-ddwyrain Cymru - Cyfartaledd Tair Blynedd 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*

| | Cymru Gyfan | De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymweliadau** | **94** | **38** |
| Llai na 5 milltir | 14 | 5 |
| Rhwng 5 a 10 milltir | 14 | 6 |
| 11 i 20 milltir | 15 | 7 |
| 21 i 40 milltir | 13 | 6 |
| 41 i 100 milltir | 17 | 6 |
| Dros 100 milltir | 15 | 3 |

**Sylwch fod y categorïau pellter teithio yn amrywio o ran maint.*

Mae dosbarthiad y pellteroedd a deithiwyd ar gyfer ymweliadau undydd twristiaeth yn ystod 2017-2019 yn Ne-ddwyrain Cymru yn cyd-fynd yn fras â'r dosbarthiad yng Nghymru ar gyfartaledd. Yn Ne-ddwyrain Cymru, teithiodd cyfran ychydig yn fwy (18 y cant) 11-20 milltir na chyfartaledd Cymru (16 y cant).

**Dangosyn 4.5 Cyfran (%) yr Ymweliadau Dydd Twristiaeth â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Pellter a Deithiwyd - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*





**Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

# 5. Cyfraddau Deiliadaeth Llety

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru. Cyfartaleddau a gymerwyd dros dair blynedd, 2016-2018, yw'r ffigurau a ddangosir, oni nodir fel arall. Gweler Tabl 6.5 am y set ddata lawn.

## Gwestai


**Dangosyn 5.0 Cyfraddau Deiliadaeth Ystafelloedd Gwestai - Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd (%) ar gyfer Cymru Gyfan a De-ddwyrain Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*




Mae cyfartaledd y gyfradd deiliadaeth ystafelloedd gwesty yn Ne-ddwyrain Cymru wedi aros yn gymharol wastad dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn 2017-2019 y gyfradd honno oedd yr uchaf o blith holl ranbarthau Cymru, ar 72 y cant. Cyfradd deiliadaeth ystafelloedd gwestai ar gyfartaledd yng Nghymru oedd 66 y cant.

## Gwestai Bach a Gwely a Brecwast


**Dangosyn 5.1 Cyfraddau Deiliadaeth Ystafelloedd Gwestai Bach/Gwely a Brecwast (%) - Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd ar gyfer Cymru Gyfan a De-ddwyrain Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*




Mae cyfraddau defnydd cyfartalog o ystafelloedd mewn gwestai bach/gwely a brecwast yn Ne-ddwyrain Cymru wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, o 24 y cant yn 2016-2018 i 20 y cant yn 2017-2019. Dros yr un cyfnod, mae'r cyfraddau cyfartalog yng Nghymru wedi aros yn uwch ac yn fwy sefydlog, gan symud o 38 y cant yn 2015-2017 i 37 y cant yn 2016-2018 a 2017-2019.

## Hunanddarpar

**Dangosyn 5.2 Cyfraddau Deiliadaeth Unedau Hunanddarpar (%) - Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd ar gyfer Cymru Gyfan a De-ddwyrain Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*




**Nid yw ffigurau De-ddwyrain Cymru ar gael tan 2014*

Mae cyfraddau deiliadaeth unedau hunanddarpar wedi aros yn gymharol wastad dros y blynyddoedd diwethaf, er iddynt fod yn gyson is na'r cyfraddau a welwyd ledled Cymru ar gyfartaledd. Ers 2013-2015, mae cyfraddau deiliadaeth ar gyfer unedau hunanddarpar wedi bod yn codi yng Nghymru ar gyfartaledd, gan symud o 55 y cant yn 2016-2018 i 57 y cant yn 2017-2019.

## Carafanau Sefydlog a Chartrefi Gwyliau


Ni roddir cyfraddau deiliadaeth carafanau statig a chartrefi gwyliau ar gyfer De-ddwyrain Cymru gan fod y sampl yn fach.

## Carafanau Teithiol a Gwersylla

Ni roddir cyfraddau deiliadaeth safleoedd carafanau teithiol a gwersylla ar gyfer De-ddwyrain Cymru gan fod y sampl yn fach.

## Hosteli

**Dangosyn 5.5 Cyfraddau Defnydd (%) Gwelyau Hosteli - Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd ar gyfer Cymru Gyfan a De-ddwyrain Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*




De-ddwyrain Cymru oedd â'r cyfraddau deiliadaeth hosteli isaf yng Nghymru yn 2017-2019, ar 47 y cant, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 53 y cant. Gwelwyd cynnydd araf yng nghyfraddau deiliadaeth hosteli cyfartalog Cymru ers 2008-2010, ac yn fwy na heb mae De-ddwyrain Cymru wedi dilyn y duedd honno, ond yn gyson wedi bod ychydig o bwyntiau canran yn is na chyfradd Cymru gyfan.

## 6. Adnoddau Pellach

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymchwil ac ystadegau twristiaeth rheolaidd, gan gynnwys:

Ystadegau Twristiaeth Swyddogol: Perfformiad Twristiaeth Cymru
Adroddiad cynhwysfawr sy'n cynnwys y data chwarterol diweddaraf o'r prif arolygon twristiaeth

Arolwg Twristiaeth Prydain
Arolwg defnyddwyr cenedlaethol sy'n cyfrif nifer a gwerth teithiau dros nos yr aeth trigolion Prydain arnynt.

Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain
Arolwg defnyddwyr cenedlaethol sy'n cyfrif nifer a gwerth teithiau undydd yr aeth trigolion Prydain arnynt.

Arolwg Ymwelwyr Cymru
Cynhelir astudiaeth reolaidd bob ychydig o flynyddoedd er mwyn cael proffil manwl o ymwelwyr hamdden â Chymru, gan gynnwys adborth ar fodlonrwydd ymwelwyr.

Baromedr Busnes Twristiaeth
Arolwg rheolaidd a gynhelir ar ôl adegau penodol yn ystod y tymor twristiaeth blynyddol sy'n rhoi 'ciplun' o berfformiad y diwydiant.

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth
Arolwg ac adroddiad blynyddol sy'n monitro tueddiadau yn y sector atyniadau i ymwelwyr

Arolygon Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru
Arolwg deiliadaeth sy'n darparu gwybodaeth am dueddiadau o ran y galw am lety i ymwelwyr yng Nghymru

Stoc gwelyau llety
Data ar nifer y sefydliadau llety twristiaeth a lleoedd gwely yng Nghymru fesul rhanbarth a math o lety.

# 7. Atodiad

## Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain

**Tabl 7.1 Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliwn) y Nosweithiau (miliwn) a'r Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| Teithiau (miliynau) | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2007-2009 | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Prydain | 118.944 | 117.563 | 121.628 | 122.788 | 125.186 | 121.055 | 120.524 | 119.374 | 121.519 | 119.562 | 120.671 |
| Cymru | 8.718 | 8.669 | 9.084 | 9.322 | 9.743 | 9.845 | 10.127 | 9.919 | 9.593 | 9.451 | 9.914 |
| Gogledd Cymru | 3.030 | 3.184 | 3.264 | 3.417 | 3.488 | 3.655 | 3.713 | 3.626 | 3.428 | 3.378 | 3.653 |
| Canolbarth Cymru | 1.591 | 1.577 | 1.585 | 1.540 | 1.618 | 1.717 | 1.763 | 1.750 | 1.740 | 1.887 | 1.916 |
| De-ddwyrain Cymru | 2.124 | 1.943 | 2.027 | 2.110 | 2.310 | 2.231 | 2.473 | 2.471 | 2.463 | 2.252 | 2.307 |
| De-orllewin Cymru | 1.882 | 1.863 | 2.063 | 2.074 | 2.160 | 2.089 | 2.081 | 2.014 | 1.890 | 1.862 | 1.939 |
| **Nosweithiau (miliynau)** | | | | | | | | | | | |
| | 2007-2009 | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Prydain | 379.046 | 372.160 | 378.725 | 378.989 | 383.059 | 370.464 | 366.751 | 362.068 | 368.704 | 366.920 | 371.003 |
| Cymru | 32.084 | 32.380 | 33.429 | 34.144 | 34.450 | 34.484 | 34.974 | 34.739 | 33.385 | 33.198 | 33.898 |
| Gogledd Cymru | 11.822 | 12.346 | 12.988 | 13.415 | 13.354 | 13.575 | 13.199 | 13.222 | 12.221 | 12.450 | 12.859 |
| Canolbarth Cymru | 6.026 | 6.204 | 6.131 | 6.087 | 6.244 | 6.535 | 6.794 | 6.819 | 6.730 | 6.977 | 6.650 |
| De-ddwyrain Cymru | 5.818 | 5.476 | 5.241 | 5.370 | 5.494 | 5.291 | 6.097 | 6.213 | 6.350 | 5.866 | 6.162 |
| De-orllewin Cymru | 7.558 | 7.382 | 7.983 | 8.066 | 8.243 | 8.166 | 8.153 | 7.907 | 7.468 | 7.321 | 7.573 |
| **Gwariant (£ miliwn)** | | | | | | | | | | | |
| | 2007-2009 | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Prydain | £ 20,458 | £ 20,312 | £ 21,145 | £ 22,146 | £ 23,312 | £ 23,320 | £ 23,603 | £ 23,532 | £ 23,862 | £ 23,574 | £ 24,098 |
| Cymru | £ 1,403 | £ 1,413 | £ 1,523 | £ 1,587 | £ 1,673 | £ 1,673 | £ 1,802 | £ 1,800 | £ 1,764 | £ 1,723 | £ 1,828 |
| Gogledd Cymru | £ 495 | £ 508 | £ 544 | £ 545 | £ 582 | £ 591 | £ 639 | £ 639 | £ 613 | £ 626 | £ 682 |
| Canolbarth Cymru | £ 228 | £ 252 | £ 257 | £ 255 | £ 262 | £ 281 | £ 309 | £ 311 | £ 304 | £ 314 | £ 335 |
| De-ddwyrain Cymru | £ 328 | £ 302 | £ 309 | £ 349 | £ 374 | £ 361 | £ 418 | £ 421 | £ 422 | £ 373 | £ 393 |
| De-orllewin Cymru | £ 308 | £ 314 | £ 364 | £ 390 | £ 397 | £ 390 | £ 386 | £ 387 | £ 384 | £ 374 | £ 383 |

## Ymwelwyr Rhyngwladol

**Tabl 7.2 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (000oedd), Nosweithiau (000oedd) a'r Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Blynyddol gwreiddiol vs diwygiedig**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| Ymweliadau (000oedd) | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** |
| Cymru - gwreiddiol | 991 | 890 | 879 | 854 | 869 | 933 | 970 | 1,074 | 1,079 | 941 | |
| Cymru - diwygiwyd | 986 | 878 | 877 | 848 | 877 | 935 | 958 | 1,080 | 1,112 | 988 | 1,023 |

| Nosweithiau (000oedd) | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** |
| Cymru - gwreiddiol | 6,288 | 6,245 | 6,302 | 7,112 | 5,866 | 6,662 | 7,355 | 7,166 | 6,894 | 6,522 | |
| Cymru - diwygiedig | 15,013 | 13,233 | 13,838 | 15,229 | 12,540 | 15,794 | 15,859 | 15,791 | 14,450 | 13,906 | 13,731 |

| Gwariant (£ miliwn) | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** |
| Cymru - gwreiddiol | £332 | £333 | £328 | £346 | £352 | £368 | £410 | £444 | £369 | £405 | |
| Cymru - diwygiedig | £337 | £336 | £335 | £352 | £353 | £373 | £409 | £507 | £397 | £433 | £515 |

**Tabl 7.3 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (000oedd), y Nosweithiau (miliynau) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| Ymweliadau (000oedd) | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2006-2008 | 2007-2009 | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Y DU | 32,460 | 31,913 | 31,120 | 31,119 | 31,502 | 32,558 | 33,708 | 35,232 | 37,086 | 39,000 | 40,164 | 40,740 |
| Cymru | 1,063 | 1,013 | 977 | 914 | 868 | 867 | 887 | 923 | 991 | 1,050 | 1,060 | 1,041 |
| Gogledd Cymru | 298 | 304 | 289 | 270 | 247 | 233 | 229 | 250 | 270 | 298 | 303 | 299 |
| Canolbarth Cymru | 89 | 82 | 87 | 78 | 80 | 77 | 80 | 85 | 98 | 107 | 107 | 99 |
| De-ddwyrain Cymru | 511 | 471 | 457 | 433 | 430 | 439 | 446 | 470 | 499 | 526 | 525 | 525 |
| De-orllewin Cymru | 214 | 202 | 201 | 190 | 173 | 173 | 190 | 190 | 203 | 203 | 198 | 187 |

| Nosweithiau (miliynau) | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2006-2008 | 2007-2009 | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Y DU | 256.904 | 246.105 | 241.013 | 241.637 | 242.072 | 248.761 | 258.797 | 272.662 | 287.121 | 298.760 | 301.229 | 297.876 |
| Cymru | 7.737 | 6.889 | 6.833 | 6.373 | 6.696 | 6.608 | 6.713 | 6.671 | 7.173 | 7.437 | 7.281 | 7.198 |
| Gogledd Cymru | 1.792 | 1.576 | 1.495 | 1.545 | 1.712 | 1.700 | 1.647 | 1.555 | 1.686 | 1.633 | 1.668 | 1.567 |
| Canolbarth Cymru | 0.637 | 0.630 | 0.640 | 0.509 | 0.513 | 0.498 | 0.565 | 0.619 | 0.740 | 1.045 | 1.001 | 0.856 |
| De-ddwyrain Cymru | 3.631 | 3.069 | 3.085 | 2.869 | 3.228 | 3.119 | 3.134 | 3.058 | 3.228 | 3.229 | 3.102 | 3.249 |
| De-orllewin Cymru | 1.570 | 1.552 | 1.544 | 1.379 | 1.186 | 1.242 | 1.318 | 1.369 | 1.447 | 1.421 | 1.392 | 1.352 |

| Gwariant (£ miliwn) | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2006-2008 | 2007-2009 | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Y DU | £15,981 | £16,517 | £17,129 | £18,009 | £18,722 | £20,185 | £21,665 | £23,019 | £24,091 | £25,749 | £26,631 | £27,637 |
| Cymru | £338 | £330 | £329 | £336 | £341 | £347 | £359 | £378 | £430 | £438 | £446 | £448 |
| Gogledd Cymru | £77 | £82 | £79 | £80 | £81 | £77 | £76 | £80 | £88 | £92 | £90 | £89 |
| Canolbarth Cymru | £27 | £24 | £28 | £27 | £33 | £34 | £36 | £39 | £58 | £62 | £54 | £31 |
| De-ddwyrain Cymru | £166 | £156 | £157 | £165 | £169 | £170 | £170 | £178 | £186 | £192 | £196 | £224 |
| De-orllewin Cymru | £62 | £62 | £62 | £61 | £56 | £62 | £75 | £76 | £91 | £84 | £95 | £92 |

## Ymwelwyr Undydd Twristiaeth

Sylwch fod y dull o gynnal yr arolwg wedi cael ei ddiwygio droeon ers 2016, a bod hynny wedi effeithio ar y gallu i gymharu ffigurau 2011-2015 â'r ffigurau o 2016 ymlaen. I unioni hyn, mae'r ffigurau cyn 2016 wedi'u hailbwysoli ar sail +15 y cant fel bo modd eu cymharu. Mae'n bosibl felly nad yw rhai o'r ffigurau isod ar gyfer ymweliadau undydd Twristiaeth yn cyfateb â'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol.

**Tabl 7.4 Nifer yr ymweliadau undydd Twristiaeth (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**

*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*

| | Ymweliadau (miliynau) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Prydain | 1,857 | 1,872 | 1,801 | 1,803 | 1,794 | 1,777 | 1,716 |
| Cymru | 112 | 108 | 97 | 97 | 96 | 99 | 94 |
| Gogledd Cymru | 27 | 27 | 24 | 27 | 24 | 25 | 23 |
| Canolbarth Cymru | 13 | 15 | 15 | 13 | 11 | 11 | 12 |
| De-ddwyrain Cymru | 47 | 44 | 39 | 37 | 38 | 39 | 38 |
| De-orllewin Cymru | 24 | 23 | 20 | 21 | 22 | 24 | 23 |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | | | |
| | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Prydain | £ 62,498 | £ 63,161 | £ 61,938 | £ 62,560 | £ 62,765 | £ 63,378 | £ 64,402 |
| Cymru | £ 3,770 | £ 3,669 | £ 3,240 | £ 3,432 | £ 3,850 | £ 4,146 | £ 3,929 |
| Gogledd Cymru | £ 831 | £ 1,011 | £ 817 | £ 1,001 | £ 830 | £ 920 | £ 703 |
| Canolbarth Cymru | £ 427 | £ 427 | £ 449 | £ 357 | £ 374 | £ 388 | £ 628 |
| De-ddwyrain Cymru | £ 1,789 | £ 1,685 | £ 1,442 | £ 1,534 | £ 1,612 | £ 1,735 | £ 1,550 |
| De-orllewin Cymru | £ 759 | £ 771 | £ 733 | £ 695 | £ 750 | £ 813 | £ 762 |

## Cyfraddau Deiliadaeth Llety

**Tabl 7.5 Cyfraddau Defnydd Llety yng Nghymru ac ym mhob Rhanbarth yng Nghymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*

| Gwesty - Cyfraddau Ystafell | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2008-2010** | **2009-2011** | **2010-2012** | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Cymru | 58 | 59 | 59 | 60 | 62 | 65 | 66 | 67 | 66 | 66 |
| Gogledd Cymru | 60 | 61 | 61 | 62 | 64 | 65 | 67 | 67 | 65 | 64 |
| Canolbarth Cymru | 49 | 51 | 52 | 53 | 53 | 52 | 52 | 52 | 53 | 54 |
| De-ddwyrain Cymru | 63 | 62 | 61 | 62 | 65 | 69 | 71 | 72 | 73 | 72 |
| De-orllewin Cymru | 54 | 53 | 52 | 50 | 55 | 59 | 63 | 63 | 63 | 65 |
| **Tai Llety / Gwely a Brecwast - Cyfraddau Ystafell** | | | | | | | | | | |
| | **2008-2010** | **2009-2011** | **2010-2012** | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Cymru | 37 | 36 | 35 | 34 | 34 | 35 | 36 | 38 | 37 | 37 |
| Gogledd Cymru | 38 | 38 | 35 | 34 | 34 | 35 | 37 | 38 | 38 | 35 |
| Canolbarth Cymru | 31 | 33 | 33 | 33 | 30 | 30 | 29 | 29 | 29 | 31 |
| De-ddwyrain Cymru | 40 | 34 | 31 | 27 | 29 | 31 | 34 | 32 | 24 | 20 |
| De-orllewin Cymru | 40 | 38 | 39 | 40 | 41 | 42 | 43 | 46 | 46 | 46 |
| **Hunanddarpar - Cyfraddau Uned** | | | | | | | | | | |
| | **2008-2010** | **2009-2011** | **2010-2012** | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Cymru | 48 | 50 | 51 | 52 | 51 | 50 | 51 | 53 | 55 | 57 |
| Gogledd Cymru | 53 | 57 | 56 | 56 | 57 | 57 | 57 | 57 | 59 | 62 |
| Canolbarth Cymru | 44 | 45 | 47 | 49 | 45 | 45 | 47 | 51 | 51 | 51 |
| De-ddwyrain Cymru* | - | - | - | - | - | - | 48 | 49 | 48 | 49 |
| De-orllewin Cymru* | - | - | - | - | - | - | 48 | 52 | 54 | 56 |

**Nid yw ffigurau De-ddwyrain Cymru na'r De-orllewin Cymru ar gael tan 2014*

| Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau - Cyfraddau Uned | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Cymru | 81 | 81 | 80 | 83 | 77 | 74 | 76 | 84 | 88 | 88 |
| Gogledd Cymru | - | - | - | - | 69 | 57 | 48 | 42 | 44 | 45 |
| Canolbarth Cymru | - | - | - | - | 57 | 58 | 47 | 57 | 57 | 70 |
| De-ddwyrain Cymru* | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| De-orllewin Cymru | - | - | - | - | 52 | 56 | 71 | 75 | 79 | 79 |
| **Carafanau Teithiol a Gwersylla - Cyfraddau Llain** | | | | | | | | | | |
| | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Cymru | 44 | 45 | 43 | 37 | 32 | 33 | 36 | 39 | 42 | 43 |
| Gogledd Cymru | - | - | - | - | 33 | 35 | 39 | 41 | 42 | 41 |
| Canolbarth Cymru | - | - | - | - | 35 | 35 | 34 | 35 | 38 | 42 |
| De-ddwyrain Cymru* | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| De-orllewin Cymru | - | - | - | - | 32 | 33 | 36 | 38 | 43 | 42 |
| **Hostel - Cyfraddau Gwely** | | | | | | | | | | |
| | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Cymru | 38 | 41 | 41 | 42 | 44 | 46 | 48 | 51 | 52 | 53 |
| Gogledd Cymru | 38 | 43 | 46 | 49 | 50 | 52 | 54 | 54 | 53 | 53 |
| Canolbarth Cymru | 39 | 38 | 39 | 40 | 42 | 46 | 50 | 53 | 55 | 58 |
| De-ddwyrain Cymru | 45 | 43 | 41 | 41 | 41 | 41 | 44 | 45 | 48 | 47 |
| De-orllewin Cymru | 37 | 39 | 39 | 39 | 39 | 41 | 44 | 49 | 51 | 53 |

**Ni ddangosir ffigurau De-ddwyrain Cymru gan fod maint y sampl yn fach.*

## Math o lety a ddefnyddiwyd ar daith dros nos gan ymwelwyr domestig o Brydain

| **Tabl 7.6 Categorïau Llety - Teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain**<br>*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain* |
|---|
| |
| **Gwesty / Motel** |
| Gwesty |
| Motel |
| **Tŷ Llety/Ffermdy/Gwely a Brecwast** |
| Gwely a Brecwast |
| Gwesty bach |
| Ffermdy |
| **Llety Hunanddarpar** |
| Hunanddarpar mewn fflat\rhandy rhent |
| Hunanddarpar mewn tŷ\siale\fila\bynglo\bwthyn |
| Gwersyll\pentref gwyliau - hunanddarpar |
| **Cartref ffrind/Cartref perthynas/Ail gartref/Cyfran gyfnodol** |
| Cartref ffrind |
| Cartref perthynas |
| Yn berchen ar ail gartref\cyfran gyfnodol |
| **Carafanio a Gwersylla** |
| Carafanio a Gwersylla |